O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1464 (Cy. 158)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Merthyr Tydfil College Limited (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2015

## NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Merthyr Tydfil College Limited, coleg sy'n cael ei redeg gan gwmni cofrestredig cyfyngedig drwy warant, at ddibenion adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Mae dynodi Merthyr Tydfil College Limited yn golygu bod y sefydliad i gael ei drin fel sefydliad o fewn y sector addysg bellach at ddibenion y Deddfau Addysg (o fewn yr ystyr a roddir gan adrannau 91(1) ac 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac adran 578 o Ddeddf Addysg 1996).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1464 (Cy. 158)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Merthyr Tydfil College Limited (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2015

*Gwnaed* *1 Gorffenaf 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *6 Gorffenaf 2015*

*Yn dod i rym* *31 Gorffennaf 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Merthyr Tydfil College Limited (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2015 a daw i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

### Dynodi

**2.** Mae Merthyr Tydfil College Limited (a gorfforwyd ar 13 Awst 2008 fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac a gofrestrwyd gyda'r rhif cwmni 06671721), sef sefydliad addysgol o'r math a ddisgrifir

(**1**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 28 gan Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), ac adran 143 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21) ac Atodlen 11 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 28 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

yn is-adrannau (1) a (2)(d) o adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, wedi ei ddynodi fel sefydliad at ddibenion yr adran honno.

*Julie James*
Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, un o Weinidogion Cymru
1 Gorffennaf 2015